



## Grŵp 2 Gofyn a Gweithredu

### Cwestiynau Cyffredin

#### **Beth sydd angen i mi ei gwblhau ar gyfer yr achrediad?**

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r dyddlyfr ymarfer myfyriol ymgeiswyr, gyda'ch atebion i'r cwestiynau yn cael eu cyflwyno yn y fformat a ddarparwyd. Os nad ydych chi'n gallu defnyddio'r fformat a ddarperir, cysylltwch â [training@welshwomensaid.org.uk](mailto:training@welshwomensaid.org.uk)

Os nad ydych wedi cyflwyno eich cynllun gwera a chyflwyniad micro-addysgu yn barod, dylech gyflwyno'r gwaith hwn hefyd ynghyd â'ch dyddlyfr ymarfer myfyriol.

#### **Ble alla i ddod o hyd i wybodaeth arall i helpu i lenwi dyddlyfr ymarfer myfyriol ymgeisydd?**

Gallwch ddod o hyd i fideos a gweminarau a recordiwyd gan arbenigwyr a goroeswyr yn yr ardal Gofyn a Gweithredu o dan 'Gweminarau a Fideos'. Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth am ddeddfwriaeth, diogelu data, erthyglau, blogiau a mwy yn ardal Gofyn a Gweithredu o dan y dudalen 'Darllen Pellach'.

#### **Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno?**

Mae terfynau amser yn cael eu pennu ar gyfer 4 wythnos ar ôl cwblhau hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth. Os oes angen i chi wirio eich dyddiad cau, cysylltwch â [training@welshwomensaid.org.uk](mailto:training@welshwomensaid.org.uk)

#### **A allaf ofyn am estyniad?**

Gallwch. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gwerthfawrogi eich amserlenni/ymrwymadau gwaith prysur ac yn deall nad yw hi bob amser yn bosibl cyflwyno erbyn y dyddiad cau. I wneud cais am estyniad cysylltwch â [training@Welshwomensaid.org.uk](mailto:training@Welshwomensaid.org.uk). Dylech hefyd roi gwybod i'ch rheolwr llinell os bydd angen estyniad.

#### **Am ba hyd y gallaf gael estyniad?**

Gall Cymorth i Ferched Cymru gynnig estyniad o 2 wythnos i'ch dyddiad cau, ond gallwn roi mwy o amser yn dibynnu ar y sefyllfa. Rhaid cofnodi dyddiad estyniad fel y bydd y gweinyddwr hyfforddiant yn cytuno ar ddyddiad estyniad gyda chi. Os ydych yn dal i fethu cyflwyno erbyn dyddiad yr estyniad, cysylltwch â ni eto i drafod ymhellach. Bydd negeseuon atgoffa i gyflwyno eich dyddlyfr ymarfer myfyriol yn cael eu hanfon atoch chi ar e-bost fel rhan o archwiliad mewnol. Byddwn yn ceisio cysylltu â chi deirgwaith.



Live Fear Free Helpline  
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
0808 80 10 800



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

### **Sut ydw i'n cyflwyno fy ngwaith?**

Mae'n RHAIID i chi e-bostio eich dyddlyfr ymarfer myfyriol i [workbook@welshwomensaid.org.uk](mailto:workbook@welshwomensaid.org.uk)

Ni fydd llyfrau gwaith sy'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr hyfforddwy'r yn cael eu derbyn felly gwnewch yn siŵr eich bod yn eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost cywir. Mae hyn er mwyn gallu olrhain llyfrau gwaith ac osgoi oedi yn y broses asesu.

### **Sut fydda i'n gwybod pan fydd fy nyddlyfr ymarfer myfyriol wedi cael ei dderbyn?**

Unwaith y bydd gweinyddwr yr hyfforddiant wedi derbyn eich dyddlyfr ymarfer myfyriol, byddwch yn derbyn ymateb yn cadarnhau derbynneb. Dylech ganiatáu ychydig ddyddiau ar gyfer ymateb ond os na fyddwch wedi derbyn cadarnhad e-bost ar ôl yr amser hwn, cysylltwch â'r adran hyfforddi.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses asesu ac achredu fel amserlenni, gweler y ddogfen 'Proses Achredu ac Asesu Cymorth i Ferched Cymru' yn yr ardal Gofyn a Gweithredu dan glo yn y tudalennau asesu Ar Ôl y cwrs.